

## Crynodeb o brif delerau ac amodau gwaith Swyddog Cyfathrebu a Chynorthwy-ydd Personol

Gweler isod grynodeb o brif telerau ac amodau gwaith y swydd.

- 1. Teitl y swydd**

Teitl y swydd yw Swyddog Cyfathrebu a Chynorthwy-ydd Personol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru.
  - 2. Dyddiad cychwyn cyflogaeth**

I'w drafod. Yn ddefnyddiol cyn diwedd Medi 2017
  - 3. Lleoliad y swydd**

Lleolir y swydd ym Mhrif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth; disgwylir teithio i rai cyfarfodydd a thelir costau cynhaliadaeth yn ôl yr hyn a bennir gan Gyngor Cenedlaethol UCAC.
  - 4. Cyflog**

Pwynt 27-30 (£24,778 - £27,493) ar Raddfa Gyflogau UCAC sydd yn seiliedig ar Raddfa Gyflogau'r Awdurdodau Lleol.
  - 5. Oriau gwaith**
    - (i) Oriau gwaith arferol y swydd yw 35 awr yr wythnos (9.00-5.00 o ddydd Llun i ddydd Iau a 9.00-4.00 ar ddydd Gwener); gall galwadau'r swydd olygu amrywiaeth yn yr oriau hyn.
    - (ii) Caniateir oriau hyblyg o fewn terfynau rhesymol, cyn belled â'u bod nhw'n cael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol.
  - 6. Gwyliau**

Bydd hawl i 25 o ddiwrnodau gwaith mewn blwyddyn gan godi i 28 diwrnod gwaith ar ôl tair blynedd o wasanaeth. Yn ychwanegol at y gwyliau blynyddol, mae gan weithwyr UCAC hawl i 13 diwrnod gŵyl.
  - 7. Absenoldeb salwch**

Telir cyflog yn ystod absenoldeb oherwydd salwch yn unol â'r raddfa isod:

    - (i) yn ystod y chwe mis cyntaf o wasanaeth, telir un mis o gyflog llawn; yn ychwanegol, ar ôl pedwar mis o wasanaeth telir dau fis o hanner cyflog
    - (ii) ar ôl chwe mis o wasanaeth, telir cyflog llawn am y 26 wythnos gyntaf o salwch o fewn blwyddyn ariannol UCAC, a thelir 50% am y 26 wythnos nesaf o salwch
    - (iii) mewn achosion o dalu cyflog llawn, bydd y tâl salwch yn swm a fydd o'i ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol yn gyfwerth â thâl llawn
    - (iv) mewn achosion o dalu 50% o'r cyflog, bydd y tâl salwch yn swm a fydd yn ychwanegol at y Tâl Salwch Statudol
- Mae Yswiriant Grŵp Diogelu Incwm gan UCAC ar gyfer achosion o dor-iechyd sydd yn diogelu cyfran o gyflog yr unigolyn. Bydd aelodaeth o'r Cynllun hwn yn ddibynnol ar delerau'r polisi yswiriant. Bydd unrhyw daliad yn ddibynnol ar delerau'r polisi.
- 8. Pensiwn**

Mae gan UCAC Gynllun Pensiwn Grŵp seiliedig ar gytundeb (*contract based*). Gweithredir dull talu yn seiliedig ar gynllun aberthu cyflog (*salary sacrifice*). Darperir y cynllun pensiwn gan gwmni Aegon. Fe fydd pob aelod o staff yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn aelod o'r cynllun pensiwn ond bydd hawl optio allan pe dymunir.
  - 9. Talebau gofal plant**

Mae UCAC yn darparu cynllun aberthu cyflog (*salary sacrifice*) ar gyfer talebau gofal plant.

## 10. Cynllun Tâl Marwolaeth mewn Gwasanaeth

Darperir Tâl Marwolaeth mewn Gwasanaeth unwaith y byddwch wedi cwblhau o leiaf tri mis o wasanaeth di-dor i UCAC. Bydd unrhyw daliad yn ddibynnol ar delerau'r polisi.

## 11. Rhybudd i derfynu cyflogaeth

- (i) Yn ystod y mis cyntaf o wasanaeth, nid oes rhaid rhoi rhybudd cyn terfynu cyflogaeth. Ar ôl y mis cyntaf, gallwch derfynu cyflogaeth ar rybudd o wyth wythnos.
- (ii) Gall y Cyngor Cenedlaethol derfynu eich cyflogaeth fel a ganlyn:
  - (a) yn ystod y mis cyntaf o wasanaeth, nid oes rhaid i'r Cyngor roi rhybudd
  - (b) ar ôl y mis cyntaf, wyth wythnos o rybudd hyd at bum mlynedd o wasanaeth
  - (c) ar ôl pum mlynedd o wasanaeth, un wythnos o rybudd yn ychwanegol at yr wyth wythnos am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd am ddeuddeg mlynedd o wasanaeth
  - (ch) ar ôl deuddeg mlynedd o wasanaeth, erys cyfnod y rhybudd gan y Cyngor yn ddeuddeg wythnosBydd hawl derbyn unrhyw wyliau sy'n ddyledus, pro rata.
- (iii) Mewn rhai achosion o ddisgyblaeth (e.e. camymddwyn dybryd, dwyn anfri ar yr undeb), ni fydd yn rhaid rhoi rhybudd cyn terfynu cyflogaeth. Gweler Polisi Trefn a Rheolau Disgyblu UCAC am fanylion llawn.
- (iv) Mewn rhai achosion (*Garden Leave*) rhoddir rhybudd diswyddo ond ni fydd hawl mynychu'r gwaith yn ystod y cyfnod.

## 13. Cyfrinachedd

Mae cyfrinachedd yn holl bwysig i waith UCAC ac mae'r ddyletswydd cyfrinachedd yn berthnasol yn ystod, ac ar ôl, cyflogaeth.